Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yng Nghymru:

## Adroddiad Interim

Rhagfyr 2013

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Yr Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol a Pherfformiad
Gwasanaethau Cyhoeddus
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: CouncilTaxSupport@cymru.gsi.gov.uk

ISBN digidol 978 1 4734 0688 9
© Hawlfraint y Goron 2013
WG20511

**Cynnwys**


**1. Cefndir ………………………………………………………… 4**

**2. Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor 2013-14 …………… 5**

Beth yw amcanion Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor?…… 5

Pwy sy'n gymwys i gael Gostyngiad yn y Dreth Gyngor? ………… 5

Sut mae hawl i Ostyngiad yn y Dreth Gyngor yn cael ei chyfrifo? … 6

Disgresiwn Lleol …………………………………............ 7

**3. Tueddiadau Budd-dal y Dreth Gyngor yn y gorffennol ……………… 9**

Derbynwyr a gwariant ar Fudd-dal y Dreth Gyngor fesul Awdurdod Lleol ……………………………………………………… 9

Derbynwyr Budd-dal y Dreth Gyngor fesul Awdurdod Lleol a Statws Pasbort ……………………………………………….. 11

**4. Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yng Nghymru ers 1 Ebrill 2013 ………........................................................................... 13**

Llwyth achosion ……………………………………………………… 14

Gwariant ……………………………………………………...... 17

Statws Pasbort ……………………………………… 19

Band y Dreth Gyngor ………………………………………………… 20

**5. Apelio ………………………………………………………………… 22**

Tribiwnlys Prisio Cymru ……………………………………………. 22

**6. Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor: Adroddiad Blynyddol .. 23**

**7. Atodiadau ………………………………………………………… 24**

A: Deddfwriaeth ……………………………………………………… 24

B: Budd-dal y Dreth Gyngor: Tueddiadau …………………………… 27

C: Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor: Tueddiadau ………… 32

D: Budd-dal y Dreth Gyngor: Apelio………………………………..... 40

**Crynodeb o Dablau a Ffigurau**


**Tabl 1:** Llwyth achosion a Gwariant ar Fudd-dal y Dreth Gyngor yng Nghymru: 2008-09 tan 2012-13…………………………………9

**Tabl 2:** Llwyth achosion Budd-dal y Dreth Gyngor o'i gymharu â Chartrefi Atebol (%): Chwefror 2013……………… 10

**Tabl 3:** Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor: Llwyth achosion fesul Awdurdod Lleol: Hydref 2013 …..…………………................ 16

**Tabl 4:** Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor: Gwariant fesul Awdurdod Lleol: Hydref 2013 ………………………………..… 18

**Tabl 5:** Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor: Hawlwyr yn ôl Statws Pasbort: Hydref 2013 ……………………… 19

**Tabl 6:** Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor: Gwariant yn ôl Band (%): Hydref 2013 ……………………………………………… 21

**Ffigur 1:** Derbynwyr Budd-dal y Dreth Gyngor yn ôl Statws Pasbort ……............................................................... 12

**Ffigur 2:** Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor: Llwyth achosion yng Nghymru: Mai – Hydref 2013 ……………………………………15

**Ffigur 3:** Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor: Gwariant yng Nghymru (£): Mai – Hydref 2013..................................... 17

**Ffigur 4:** Llwyth achosion Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yng Nghymru yn ôl Band (%): Hydref 2013 ……………………… 21


**Atodiadau**


**Tabl B1:** Derbynwyr Budd-dal y Dreth Gyngor fesul Awdurdod Lleol: Chwefror 2009 – Chwefror 2013…………………................. 27

**Tabl B2:** Gwariant ar Fudd-dal y Dreth Gyngor fesul Awdurdod Lleol (£ miliynau): 2009 – 2013 …………………………………….. 28

**Tabl B3:** Derbynwyr Budd-dal y Dreth Gyngor fesul Awdurdod Lleol a Statws Pasbort: Chwefror 2013…………… 31

**Tabl C1:** Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor: Llwyth achosion fesul Awdurdod Lleol: Mai 2013 – Hydref 2013…………………… 32

**Tabl C2:** Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor: Gwariant fesul Awdurdod Lleol (£): Mai 2013 – Hydref 2013 ……………… 33

**Tabl C3:** Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor: Llwyth achosion Awdurdodau Lleol o'i gymharu â Chartrefi Atebol (%): Hydref 2013…....................................................................... 34

**Tabl C4:** Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor: Llwyth achosion fesul Awdurdod Lleol a Band y Dreth Gyngor: Hydref 2013 ……… 35

**Tabl C5:** Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor: Llwyth achosion fesul Awdurdod Lleol a Band y Dreth Gyngor (%): Hydref 2013… 36

**Tabl C6:** Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor: Gwariant fesul Awdurdod Lleol a Band y Dreth Gyngor (£): Hydref 2013……37

**Tabl C7:** Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor: Gwariant fesul Awdurdod Lleol a Band y Dreth Gyngor (%): Hydref 2013… 39

**Tabl D1:** Apeliadau a Dderbyniwyd yn ymwneud â Phenderfyniadau ar Fudd-daliadau yn y DU: 2010-11 tan 2012-13 ……………..... 40

**Tabl D2:** Penderfyniadau Tribiwnlysoedd y DU ar Apeliadau yn ymwneud â Budd-dal Tai/Budd-dal y Dreth Gyngor: 2010-11 tan 2012-13.................................................... 41

**Tabl D3:** Penderfyniadau Tribiwnlysoedd Cymru ar Apeliadau yn ymwneud â Budd-dal Tai/Budd-dal y Dreth Gyngor: 2011-12 tan 2012-13……................................................. 41

**Ffigur B1:** Derbynwyr Budd-dal y Dreth Gyngor fesul Awdurdod Lleol: Chwefror 2013 ……………………………………………….. 29

**Ffigur B2:** Budd-dal y Dreth Gyngor: Gwariant â Chymhorthdal fesul Awdurdod Lleol 2011-12 ……………………………………….. 30

## 1. Cefndir

Yn Adolygiad o Wariant 2010, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai'n diddymu Budd-dal y Dreth Gyngor (CTB) ac yn rhoi'r cyfrifoldeb am ddatblygu trefniadau newydd i Awdurdodau Lleol yn Lloegr. Ar yr un pryd, cyhoeddodd ei bwriad i drosglwyddo cyllid i'r Gweinyddiaethau Datganoledig i sefydlu trefniadau newydd yng Nghymru ac yn yr Alban, a hefyd y byddai'r cyllid ar gyfer trefniadau i ddarparu cymorth yn y dyfodol ar gyfer y dreth gyngor yn cael ei leihau 10% i ddechrau. Byddai'r cyllid yn cael ei drosglwyddo o gyllidebau seiliedig ar alw i gyllidebau sefydlog hefyd.

Ar 1 Ebrill 2013, disodlwyd CTB yng Nghymru gan Gynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CTRS), a throsglwyddwyd ymgeiswyr cymwys i'r cynlluniau newydd yn awtomatig. O ganlyniad i ddatblygu trefniadau amgen gyda'r lefelau is o gyllid sydd ar gael, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud nifer o benderfyniadau polisi allweddol ynglŷn â chymorth ar gyfer y Dreth Gyngor yng Nghymru yn y dyfodol. Trafodir rhai o'r penderfyniadau yn yr adroddiad hwn.

Mae'r Rheoliadau CTRS newydd a gyflwynodd Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14 yn seiliedig i raddau helaeth ar yr hen reolau ar gyfer CTB. Fodd bynnag, rhoddwyd rhywfaint o ddisgresiwn lleol i Awdurdodau Lleol hefyd. Mae hynny'n caniatáu iddynt ystyried anghenion a blaenoriaethau eu hardaloedd lleol.

Yn ogystal â'r prif Reoliadau i gyflwyno CTRS yng Nghymru, cyflwynwyd sawl set arall o Reoliadau i sicrhau bod y cynlluniau'n gweithredu'n effeithiol – er enghraifft, ymchwilio i dwyll, rhannu gwybodaeth ac apeliadau. Mae **Atodiad A** yn cynnwys rhestr lawn o'r rheoliadau newydd a rhagor o wybodaeth amdanynt.

Mae'r Adroddiad Interim hwn ar CTRS yn cynnwys data Cymru ar y llwyth achosion a chost cymorth presennol yng Nghymru, ynghyd â'r wybodaeth ddiweddaraf am weithredu CTRS yng Nghymru ers cyflwyno'r cynlluniau. Lle bo hynny'n bosibl, mae'n cynnwys data ar gyfer Awdurdodau Lleol er mwyn archwilio gwahaniaethau rhanbarthol dros y chwe mis rhwng mis Mai a mis Hydref 2013. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys gwybodaeth hanesyddol ddefnyddiol am lwyth achosion a gwariant ar CTB cyn cyflwyno'r CTRS ym mis Ebrill 2013.

## 2. Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor 2013-14

### *Beth yw amcanion Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor?*

Disodlwyd CTB gan CTRS ar 1 Ebrill 2013. CTRS yw'r dulliau newydd y mae Awdurdodau Lleol yn eu defnyddio i helpu cartrefi incwm isel i dalu'r Dreth Gyngor. Roedd y Rhaglen Lywodraethu wedi ymrwymo i barhau â'r cymorth hwn, ac mae'r polisi hefyd yn rhan o Strategaeth Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru.

Mae'r rheoliadau ar gyfer CTRS yn seiliedig i raddau helaeth ar y system CTB flaenorol, ond mae nifer o agweddau wedi'u symleiddio.

Yn 2013-14, derbyniodd Awdurdodau Lleol gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i'w helpu i ddarparu cymorth llawn ar gyfer ymgeiswyr cymwys, a hynny er gwaethaf y ffaith fod Llywodraeth y DU wedi darparu llai o gyllid.

### *Pwy sy'n gymwys i gael Gostyngiad yn y Dreth Gyngor?*

Trosglwyddwyd ymgeiswyr cymwys yn awtomatig o CTB i CTRS ym mis Ebrill 2013. Yn unol â'r drefn ar gyfer CTB, mae cartrefi sydd â'r hawl i fudd-daliadau diweithdra[1] ar sail prawf modd yn parhau i fod yn gymwys yn awtomatig ar gyfer y gostyngiad mwyaf (100% ar hyn o bryd, llai unrhyw

[1] Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith, Credyd Pensiwn a Gwarant Credyd Pensiwn.

ddidyniadau ar gyfer pobl nad ydynt yn ddibynnol). Ar gyfer cartrefi eraill, defnyddir prawf modd i gyfrifo'r hawl i ostyngiad, sy'n debyg i'r dull blaenorol o gyfrifo hawl ar gyfer CTB.

Cyflwynir ceisiadau am ostyngiad yn y Dreth Gyngor yn uniongyrchol i Awdurdodau Lleol, sy'n gallu darparu gwybodaeth lawn am y broses ymgeisio yn ogystal ag unrhyw gynlluniau lleol y maent yn eu gweithredu. Mae Canolfan Cyngor ar Bopeth hefyd yn darparu cyngor pellach ar gyfer darpar ymgeiswyr.

Nid yw ymgeiswyr â chynilion dros £16,000 yn gymwys ar gyfer unrhyw gymorth oni bai eu bod yn derbyn Gwarant Credyd Pensiwn.

***Sut mae hawl i Ostyngiad yn y Dreth Gyngor yn cael ei chyfrifo o dan CTRS?***

Ar hyn o bryd, mae hawl i ostyngiad yn cael ei chyfrifo yn yr un modd ag ar gyfer y system CTB faenorol. Os yw ymgeisydd yn derbyn Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith Seiliedig ar Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth Seiliedig ar Incwm, Credyd Pensiwn, neu Warant Credyd Pensiwn, mae'n gymwys i gael y gostyngiad mwyaf yn y Dreth Gyngor, sy'n golygu gostyngiad i sero ar hyn o bryd (llai unrhyw ddidyniadau ar gyfer pobl nad ydynt yn ddibynnol). Cyfeirir at yr hawl hon, sy'n seiliedig ar dderbyn budd-daliadau cymhwyso eraill, fel **statws pasbort**.

Os nad yw ymgeiswyr yn derbyn unrhyw un o'r budd-daliadau pasbort, mae'r swm wythnosol o arian y bernir bod ei angen arnynt i fyw yn cael ei gyfrifo. Cyfeirir at hyn fel y **swm perthnasol**, ac mae'n cynnwys dwy elfen:

- Yr elfen gyntaf yw'r **lwfans personol** – y swm sylfaenol sydd ei angen ar unigolyn i allu byw, sy'n amrywio yn ôl amgylchiadau'r cartref. Er enghraifft, mae'r lwfans ar gyfer pâr â phlant yn fwy na'r lwfans ar gyfer rhywun sengl heb blant. Mae cyfraddau'r lwfansau hyn yn uwch ar gyfer pobl sydd wedi cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

- Yr ail elfen yw'r **premiwm** – symiau ychwanegol i adlewyrchu unrhyw amgylchiadau personol sy'n cynyddu'r costau byw, fel anabledd neu gyfrifoldebau gofalwr.

Unwaith y mae'r swm perthnasol wedi'i bennu, cyfrifir **lefel incwm** yr ymgeisydd. Mae hyn yn cynnwys gwir incwm (fel incwm o gyflogaeth, pensiynau neu rai budd-daliadau eraill), ac incwm tybiedig o gynilion dros £6,000 (£10,000 ar gyfer pensiynwyr) nad ydynt yn gysylltiedig â phensiwn. Mae swm bach o enillion hefyd yn cael ei ddiystyru wrth gyfrifo incwm – er enghraifft, ceir diystyriadau safonol ar gyfer pobl sengl a rhieni unigol, a diystyriadau uwch ar gyfer grwpiau penodol, fel pobl ag anableddau.

Mae **lefel yr incwm yn cael ei chymharu wedyn â'r swm perthnasol**. Os yw'r swm perthnasol yn fwy nag incwm cyfrifedig yr ymgeisydd, mae'n gymwys ar gyfer y gostyngiad mwyaf i'r Dreth Gyngor. Os yw'r incwm yn fwy na'r swm perthnasol, mae'r hawl wythnosol yn cael ei lleihau 20c ar gyfer pob £1 o incwm wythnosol uwchlaw'r terfyn, nes bod yr hawl yn cael ei dileu – yr enw am hyn yw'r tapr.

### ***Disgresiwn Lleol***

O dan y Rheoliadau newydd, roedd yn rhaid i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru fabwysiadu ei gynllun ei hun erbyn 31 Ionawr 2013, a allai gynnwys disgresiwn lleol, er mwyn ystyried anghenion a blaenoriaethau'r ardal leol. Aeth pob Awdurdod ati i fabwysiadu cynllun; pe bai unrhyw un wedi methu gwneud hynny, byddai'r cynllun diofyn wedi'i weithredu er mwyn sicrhau bod rhyw fath o gymorth ar gael o hyd ar gyfer y Dreth Gyngor.

Dyma'r meysydd disgresiwn lleol lle gall Awdurdodau Lleol ddewis rhoi darpariaethau ar waith sy'n fwy hael na'r gofynion sylfaenol a nodir yn y Rheoliadau:

- *Cyfnod gostyngiad estynedig* - Gall Awdurdodau Lleol ymestyn y cyfnod y mae gan ymgeiswyr hawl i barhau i dderbyn gostyngiad y tu hwnt i'r cyfnod pedair wythnos safonol mewn rhai amgylchiadau;

- *Pensiwn Anabledd Rhyfel a Phensiwn Rhyfel Gwraig Weddw* – Gall Awdurdodau Lleol ddiystyru mwy na'r £10 rhagnodedig statudol o'r arian a dderbynnir mewn perthynas â'r pensiynau hyn wrth gyfrifo incwm;

- *Ôl-ddyddio ceisiadau* - Gall Awdurdodau Lleol ôl-ddyddio ceisiadau ar gyfer gostyngiadau y tu hwnt i'r cyfnod tri mis safonol;

- *Hysbysu am benderfyniadau* – Gall Awdurdodau Lleol ddarparu mwy o wybodaeth na'r hyn sy'n ofynnol fel rhan o'u gweithdrefnau hysbysu am benderfyniadau.

Yn 2013/14, mae Awdurdodau Lleol wedi tueddu i: **gadw'r** cyfnod pedair wythnos safonol ar gyfer hawl ymgeiswyr i barhau i dderbyn gostyngiad mewn rhai amgylchiadau; **diystyru** Pensiynau Rhyfel yn eu cyfanrwydd wrth gyfrifo incwm a; **gweithredu** trefn o ôl-ddyddio ceisiadau hyd at gyfnod o dri mis. Nodwyd nifer o amrywiadau mewn perthynas â hysbysu am benderfyniadau. Mae manylion cynlluniau pob Awdurdod Lleol ar gael ar eu gwefannau unigol.

## 3. Tueddiadau Budd-dal y Dreth Gyngor yn y gorffennol

Cyflwynwyd CTB ar 1 Ebrill 1993 ac roedd ar gael tan 31 Mawrth 2013. Fel mae **Tabl 1** yn ei ddangos, roedd tua 293,000 o dderbynwyr CTB yng Nghymru yn 2008-09. Cynyddodd nifer y derbynwyr CTB yn raddol bob blwyddyn ers 2008-09, a phan gafodd y budd-dal ei ddileu ar 31 Mawrth 2013, roedd 329,000 o dderbynwyr yng Nghymru. Cafwyd cynnydd o 17,000 yn nifer y derbynwyr rhwng 2008-09 a 2009-10. Mae'n bosibl bod effaith y dirwasgiad diweddar wedi cynyddu'r llwyth achosion yn ystod y cyfnod hwn. I gymharu, rhwng 2011-12 a 2012-13, cynyddodd nifer y derbynwyr CTB tua 3,000.

Mae **Tabl 1** hefyd yn dangos sut i wariant ar CTB gynyddu bob blwyddyn ers 2008-09. Yn ôl y data, y ffigur diweddaraf oedd £242 miliwn yn 2011-12, ac amcangyfrifir y bydd gwariant tua £246 miliwn yn 2012-13. Yn ystod yr un cyfnod, talwyd £742 ar gyfartaledd i dderbynwyr ar gyfer atebolrwydd i dalu'r Dreth Gyngor.

**Tabl 1: Llwyth achosion a Gwariant ar CTB yng Nghymru, 2008-09 tan 2012-13**

| | 2008-09 | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cymru** | **293,000** | **310,000** | **322,000** | **326,000** | **329,000** |
| **Gwariant (£ miliynau)** | ***199.6** | ***222.7** | **232.7** | **242** | **246 (A)** |

*Ffynhonnell: Adran Gwaith a Phensiynau*

**Ffigurau gwariant ar CTB. Ar ôl 2010, nodir y ffigurau fel gwariant â chymhorthdal CTB-DWP.*

*(A) = Amcangyfrif, gan nad oes ffigurau wedi'u harchwilio ar gael eto*

### *Derbynwyr a Gwariant ar Fudd-dal y Dreth Gyngor fesul Rhanbarth ac Awdurdod Lleol*

Mae **Atodiad B** yn cynnwys gwybodaeth hanesyddol am dderbynwyr CTB a gwariant ar CTB fesul rhanbarth ac Awdurdod Lleol yng Nghymru. Mae'n olrhain llwyth achosion CTB o Chwefror 2009 tan Chwefror 2013, ac yn

olrhain gwariant blynyddol ar CTB rhwng 2008-09 a 2011-12 ar gyfer pob awdurdod lleol[2].

Fodd bynnag, dylid ystyried y ffigurau hyn yng nghyd-destun nifer y 'cartrefi sy'n atebol i dalu'r Dreth Gyngor' fesul Awdurdod Lleol[3]. Er enghraifft, er bod gan Ferthyr y nifer isaf ond tri o dderbynwyr CTB, a'r gwariant blynyddol isaf ond dau, mae gan yr awdurdod y llwyth achosion uchaf ond dau o gymharu â nifer y cartrefi sy'n atebol i dalu'r dreth.

Mae **Tabl 2** yn dangos canran llwyth achosion CTB pob Awdurdod Lleol o'i gymharu â'r cartrefi sy'n atebol i dalu'r Dreth Gyngor. Mae'n dangos bod gan Flaenau Gwent, Merthyr Tudful, Castell-nedd Port Talbot a Rhondda Cynon Taf lwyth achosion CTB uchel mewn perthynas â nifer y cartrefi sy'n atebol i dalu'r dreth, o gymharu â Phowys, Sir Fynwy a Cheredigion lle mae'n is o lawer.

**Tabl 2: Llwyth achosion CTB mewn perthynas â Chartrefi Atebol (%): Chwefror 2013**

| Ardal | Llwyth achosion CTB Chwef-2013* | Nifer y Cartrefi Atebol[T] 2012/13 | Llwyth achosion CTB mewn perthynas â Chartrefi Atebol (%) |
|---|---|---|---|
| **Ynys Môn** | 7,060 | 33,297 | 21.2 |
| **Gwynedd** | 11,440 | 57,211 | 20.0 |
| **Conwy** | 12,280 | 53,933 | 22.8 |
| **Sir Ddinbych** | 11,090 | 42,396 | 26.2 |
| **Sir y Fflint** | 13,120 | 63,940 | 20.5 |
| **Wrecsam** | 13,870 | 56,761 | 24.4 |
| **Powys** | 10,320 | 60,918 | 16.9 |
| **Ceredigion** | 6,020 | 32,371 | 18.6 |
| **Sir Benfro** | 11,800 | 57,370 | 20.6 |
| **Sir Gaerfyrddin** | 18,910 | 81,340 | 23.2 |
| **Abertawe** | 27,240 | 103,941 | 26.2 |

[2] Disgwylir i'r data ar wariant CTB fesul Awdurdod Lleol gael ei gyhoeddi ar ddiwedd y flwyddyn galendr.
[3] Daw'r ffigur ar gyfer 'Cartrefi Atebol' CTB gan StatsCymru ar gyfer y flwyddyn 2012/13. Daw'r ffigur ar gyfer 'Cartrefi Atebol' CTRS gan Datatank.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Castell-nedd Port Talbot** | 19,320 | 62,582 | 30.9 |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 15,790 | 59,857 | 26.4 |
| **Bro Morgannwg** | 11,160 | 53,970 | 20.7 |
| **Caerdydd** | 35,880 | 138,855 | 25.8 |
| **Rhondda Cynon Taf** | 29,970 | 101,711 | 29.5 |
| **Merthyr Tudful** | 7,820 | 25,672 | 30.5 |
| **Caerffili** | 20,430 | 75,158 | 27.2 |
| **Blaenau Gwent** | 10,730 | 31,048 | 34.6 |
| **Torfaen** | 11,250 | 39,402 | 28.6 |
| **Sir Fynwy** | 6,780 | 39,003 | 17.4 |
| **Casnewydd** | 16,200 | 61,855 | 26.2 |

**Ffynhonnell: Adran Gwaith a Phensiynau*

*[T]Ffynhonnell: StatsCymru*

***Derbynwyr Budd-dal y Dreth Gyngor fesul Awdurdod Lleol a Statws Pasbort***

Yn ôl **Ffigur 1**, ym mis Chwefror 2013, roedd y rhan fwyaf o dderbynwyr CTB ledled Cymru yn derbyn budd-daliadau pasbort (70%). Mae hyn yn cyfeirio at ymgeiswyr a oedd â'r hawl i gael y gostyngiad mwyaf yn eu Treth Gyngor oherwydd eu bod yn derbyn budd-daliadau cymhwyso eraill. Nid oedd y 30% arall o dderbynwyr yn derbyn budd-daliadau pasbort, ac o ganlyniad roedd angen prawf modd cyn y gallent gael unrhyw ostyngiad yn eu hatebolrwydd i dalu'r Dreth Gyngor.

Mae **Atodiad B** yn dangos bod canran derbynwyr CTB y system basbort a'r rhai di-basbort yn amrywio o'r naill Awdurdod Lleol i'r llall. Yng Nghasnewydd a Chaerffili, roedd tua 74% o dderbynwyr yn y system basbort, ond yn Sir y Fflint a Sir Fynwy, tua 64% o ymgeiswyr oedd yn y system basbort.

**Ffigur 1: Derbynwyr CTB yn ôl Statws Pasbort (%): Chwefror 2013**




*Ffynhonnell: Adran Gwaith a Phensiynau*

## 4. Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yng Nghymru ers 1 Ebrill 2013

Ar ôl ystyried data CTB hanesyddol, mae'r adran hon yn darparu gwybodaeth am weithredu'r CTRS, gan ddisodli'r system CTB o 1 Ebrill 2013 ymlaen. Mae'n cyflwyno ffigurau llwyth achosion a chost CTRS ledled Cymru, a lle bo hynny'n briodol, mae'n dadansoddi data ar lefel Awdurdodau Lleol er mwyn archwilio gwahaniaethau rhanbarthol dros y chwe mis diwethaf.

Dylid nodi trwy'r adroddiad nad yw cyllid ar gyfer cynlluniau gostyngiadau'r dreth gyngor yn cael 'ei ddarparu i' neu 'ei wario ar' gartrefi cymwys: mae'n cael ei roi i Awdurdodau Lleol i wneud yn iawn am incwm y dreth gyngor y byddent yn ei gael gan y cartrefi hynny fel arall. Effaith hyn ar gartrefi cymwys yw eu bod yn talu llai o dreth gyngor neu ddim yn talu unrhyw dreth gyngor. Er bod yr adran hon yn cyfeirio at 'gostau' neu 'wariant ar' y cynllun, mae'r ffigurau'n cyfeirio at gyfanswm y gostyngiad yn atebolrwydd y cartrefi dan sylw i dalu'r dreth gyngor.

Datatank sy'n gyfrifol am y data a ddefnyddiwyd. Mae angen bod yn ofalus wrth bwyso a mesur y ffigurau a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn gan mai braslun o 'achosion agored' o systemau TG Refeniw a Budd-daliadau Awdurdodau Lleol y mae Datatank yn eu crynhoi bob mis[4] .

Mae'r data diweddaraf gan Datatank yn perthyn i fis Hydref 2013, felly mae modd dangos tueddiadau gwariant a llwyth achosion ers cyflwyno CTRS dros y chwe mis rhwng mis Mai a mis Hydref 2013[5]. Mae hefyd yn bosibl darparu braslun ar ymgeiswyr yn ôl statws pasbort a band.

[4] Mewn geiriau eraill, nid yw nifer fach o achosion sydd wedi'u cau yn cael eu cynnwys, felly nid yw 'gwariant cyffredinol' yn cael ei gasglu (dim ond 'cyfanswm y gwariant' ar amser penodol). Oherwydd newidiadau i feddalwedd y system a etifeddwyd, cyfyngir dadansoddiadau i rai newidynnau penodol. Er enghraifft, nid oes modd dadansoddi'r data yn ôl y math o gartref, gan nad yw Datatank yn gallu cael gafael ar y wybodaeth hon gan bob Awdurdod Lleol ar hyn o bryd. Rydym yn rhagweld y bydd y diffyg hwn wedi'i gywiro cyn cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol.

[5] Nid yw'r data ar gael ar gyfer Ebrill 2013 oherwydd problemau diwedd blwyddyn ariannol yn sgil newid o CTB i CTRS.

Yn gyffredinol, mae'r data yn awgrymu bod gwariant wedi gostwng tua £2.5 miliwn ers mis Mai 2013. Mae hyn yn cyd-fynd â gostyngiad cyffredinol o tua 5,200 o achosion bob mis yn y llwyth achosion dros yr un cyfnod o chwe mis. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, dim ond cipolwg ar gyfanswm y gwariant ar amser penodol a geir gan y ffynhonnell ddata, ac nid yw'n cynnwys gwariant ar achosion sydd wedi'u cau. Gall unrhyw ostyngiad mewn gwariant hefyd gael ei briodoli i newidiadau tymhorol. Mae'n bosibl y bydd data a gaiff eu casglu a'u monitro yn y dyfodol yn egluro newidiadau tymhorol o'r fath.

Bydd yr Adroddiad Blynyddol a gyhoeddir yng Ngwanwyn 2014 yn cynnwys cyfanswm y costau yn 2013-14 ar gyfer pob Awdurdod Lleol, gan gynnwys gwariant ar achosion sydd wedi'u cau.

***Llwyth achosion***

Yn ôl y data diweddaraf ar gyfer mis Hydref 2013, cyfanswm y llwyth achosion ar gyfer CTRS oedd tua 318,000. Yn gyffredinol, mae'r llwyth achosion yng Nghymru wedi gostwng bob mis ers cyflwyno CTRS. Mae'n bosibl priodoli rhywfaint o'r gostyngiad cychwynnol yn y llwyth achosion i'r ffaith bod Ad-daliad Ail Oedolyn (SAR)[6] wedi'i ddileu ond mae'n bosibl bod newidiadau eraill, fel y diwygiadau lles ehangach, wedi cael effaith hefyd.

Cafwyd gostyngiad o 1.6% yn y llwyth achosion yn y cyfnod o fis Mai i fis Hydref 2013, sef gostyngiad o tua 5,200 o achosion. Mae'r data hyn yn cyd-fynd â gostyngiad yn y llwyth achosion ar gyfer Budd-dal Tai yng Nghymru ers mis Ebrill 2013 (gostyngiad o tua 1%). Fel y gwelir yn **Ffigur 2**, cafwyd y gostyngiad mwyaf yn nifer y llwyth achosion yn ystod mis Mehefin a mis

[6] Bwriad SAR oedd gwneud iawn am y ffaith bod person sengl yn colli disgownt pan oedd un ail oedolyn neu fwy (nad yw'n ddibynnol) yn preswylio yn y tŷ. Ystyriwyd bod incwm y bobl a oedd yn hawlio SAR yn rhy uchel iddynt fod yn gymwys ar gyfer gostyngiad arferol o dan y cynllun CTB, ac roedd y cymorth a dderbyniwyd ganddynt yn seiliedig yn gyfan gwbl ar incwm y person/pobl nad oedd yn ddibynnol gydag incwm a chyfalaf yr ymgeisydd yn cael ei anwybyddu. Nifer cymharol fach o hawlwyr yng Nghymru a oedd yn derbyn SAR (tua 2,000). Targedwyd yr hawliad tuag at unigolion cymharol gefnog o gymharu â derbynwyr CTB eraill, ac roedd yn gymhleth i'w weinyddu. Drwy ddileu SAR roedd modd lleihau gwariant ledled Cymru, yn ogystal â sicrhau bod cyllid sefydlog Llywodraeth Ganolog yn gwneud mwy i gefnogi ymgeiswyr tlotach. Roedd hefyd yn lleihau'r baich gweinyddol ar Awdurdodau Lleol.

Gorffennaf 2013. Gall gostyngiadau diweddar yn y llwyth achosion gael eu priodoli i'r gwelliant cyffredinol yn yr economi, neu o bosibl i gyfres o newidiadau tymhorol. Hwyrach y bydd y ffigurau blynyddol yn egluro'r duedd ddiweddar hon yn well.

**Ffigur 2: CTRS: Llwyth achosion yng Nghymru: Mai 2013 - Hydref 2013**




*Ffynhonnell: Datatank*

Mae **Tabl 3** yn dangos mai Caerdydd a RhCT sydd â'r llwyth achosion CTRS mwyaf, tra bod y llwyth achosion mewn ardaloedd fel Ceredigion a Sir Fynwy yn llai o lawer. Mae'r ffigurau hyn yn adlewyrchu tueddiadau'r llwyth achosion ar gyfer CTB cyn ei ddileu.

Fel sy'n wir am ffigurau'r CTB uchod, mae'n bwysig ystyried llwythi achosion cyfredol ar gyfer CTRS yng nghyd-destun pob eiddo sy'n atebol i dalu'r Dreth Gyngor. Mae **Atodiad C** yn ystyried amrywiadau rhanbarthol o ran llwyth achosion mewn perthynas â'r holl eiddo sy'n atebol i dalu'r Dreth Gyngor. Mae'n dangos bod y llwyth achosion ar gyfer CTRS ymysg Awdurdodau gwledig fel Powys, Ceredigion a Sir Fynwy yn llai mewn perthynas â nifer y cartrefi atebol (16%). Awdurdodau Blaenau Gwent a Merthyr yng Nghymoedd y De sydd â'r llwyth achosion mwyaf mewn perthynas â chartrefi atebol (30%).

Mae ganddynt lefelau amddifadedd uwch a chyfran fwy o gartrefi sy'n derbyn budd-daliadau nawdd cymdeithasol.

Mae **Tabl 3** hefyd yn dangos bod llwyth achosion 20 o'r 22 Awdurdod Lleol wedi lleihau rhwng mis Mai a mis Hydref 2013. Cafwyd y gostyngiad mwyaf yn Ynys Môn (minws 3.6%) a Sir Fynwy (minws 3.4%). Cafwyd cynnydd bach yn llwyth achosion Merthyr (2.8%) a Wrecsam (0.4%).

**Tabl 3: Llwyth achosion CTRS fesul Awdurdod Lleol: Hydref 2013**

| | **Hydref 2013** | **Cyfran (%)** | **Newid ers Mai 2013 (%)** |
|---|---|---|---|
| **Cymru** | **318,131** | **100** | **-1.6** |
| **Ynys Môn** | 6,828 | 2.1 | -3.6 |
| **Gwynedd** | 10,702 | 3.4 | -3.0 |
| **Conwy** | 11,737 | 3.7 | -1.7 |
| **Sir Ddinbych** | 10,801 | 3.4 | -0.6 |
| **Sir y Fflint** | 12,752 | 4 | -1.0 |
| **Wrecsam** | 13,655 | 4.3 | 0.4 |
| **Powys** | 10,354 | 3.3 | -0.1 |
| **Ceredigion** | 5,749 | 1.8 | -2.3 |
| **Sir Benfro** | 11,437 | 3.6 | -1.1 |
| **Sir Gaerfyrddin** | 17,949 | 5.6 | -2.9 |
| **Abertawe** | 26,327 | 8.3 | -2.3 |
| **Castell-nedd Port Talbot** | 18,760 | 5.9 | -1.3 |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 15,351 | 4.8 | -2.4 |
| **Bro Morgannwg** | 10,889 | 3.4 | -0.1 |
| **Caerdydd** | 34,623 | 10.9 | -2.7 |
| **Rhondda Cynon Taf** | 28,833 | 9.1 | -1.2 |
| **Merthyr Tudful** | 7,929 | 2.5 | 2.3 |
| **Caerffili** | 19,937 | 6.3 | -0.8 |
| **Blaenau Gwent** | 10,318 | 3.2 | -2.5 |
| **Torfaen** | 10,894 | 3.4 | -3.2 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Sir Fynwy** | 6,610 | 2.1 | -3.4 |
| **Casnewydd** | 15,696 | 4.9 | -0.1 |

*Ffynhonnell: Datatank*

### *Gwariant*

Mae'r data diweddaraf yn dangos bod tua £246.1 miliwn yn cael ei wario ar CTRS ar hyn o bryd. Mae data'n awgrymu bod gwariant yng Nghymru wedi gostwng fis ar ôl mis ers cyflwyno CTRS, i gyfanswm o 1.2% ers mis Mai 2013. Fodd bynnag, gan mai braslun yn unig a geir gan Datatank ar gyfanswm y gwariant ar unrhyw amser penodol, gall unrhyw ostyngiad mewn gwariant gael ei briodoli i newidiadau tymhorol, ac nid yw'n cynrychioli cyfanswm y gwariant gan nad yw'n cynnwys gwariant ar achosion sydd wedi'u cau.

**Ffigur 3: CTRS: Gwariant yng Nghymru (£): Mai 2013 - Hydref 2013**




*Ffynhonnell: Datatank*

Mae **Tabl 4** yn dangos bod y gwariant mwyaf yng Nghaerdydd (tua £27.6 miliwn) a RhCT (£22.4 miliwn), tra bod gwariant yng Ngheredigion tua £4.7 miliwn a'r gwariant yn Ynys Môn tua £5.2 miliwn. Eto, mae angen ystyried y

ffigurau hyn yng nghyd-destun nifer y cartrefi atebol gan fod gwariant ar CTRS mewn termau cymharol yn parhau i fod yn uwch mewn ardaloedd fel Merthyr a Blaenau Gwent.

Mae **Tabl 4** hefyd yn dangos bod gwariant 20 o'r 22 Awdurdod Lleol wedi gostwng rhwng mis Mai a mis Hydref 2013. Cafwyd y gostyngiad mwyaf yng Ngwynedd (-3.2%) a Cheredigion (-2.8%). Cafwyd ychydig bach o gynnydd yng ngwariant CTRS dau Awdurdod Lleol – Merthyr (0.8%) a Bro Morgannwg (0.3%). I weld dadansoddiad llawn o Wariant Awdurdodau Lleol dros y chwe mis, ewch i **Atodiad C**.

**Tabl 4: CTRS: Gwariant fesul Awdurdod Lleol: Hydref 2013**

| | Gwariant: Hydref 2013 (£) | Cyfran (%) | Newid ers Mai 2013 (%) |
|---|---|---|---|
| **Cymru** | **246,084,891** | **100** | **-1.2** |
| **Ynys Môn** | 5,210,810 | 2.1 | -1.1 |
| **Gwynedd** | 8,788,439 | 3.6 | -3.2 |
| **Conwy** | 8,963,501 | 3.6 | -2.2 |
| **Sir Ddinbych** | 9,357,441 | 3.8 | -1.1 |
| **Sir y Fflint** | 10,098,649 | 4.1 | -1.1 |
| **Wrecsam** | 10,116,049 | 4.1 | -0.9 |
| **Powys** | 8,162,169 | 3.3 | -1.6 |
| **Ceredigion** | 4,742,004 | 1.9 | -2.8 |
| **Sir Benfro** | 7,168,308 | 2.9 | -2.2 |
| **Sir Gaerfyrddin** | 14,170,046 | 5.8 | -1.8 |
| **Abertawe** | 19,215,337 | 7.8 | -1.1 |
| **Castell-nedd Port Talbot** | 15,979,299 | 6.5 | -1.3 |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 12,816,105 | 5.2 | -0.9 |
| **Bro Morgannwg** | 9,108,902 | 3.7 | 0.3 |
| **Caerdydd** | 27,610,867 | 11.2 | -0.5 |
| **Rhondda Cynon** | 22,424,158 | 9.1 | -1.3 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Taf** | | | |
| **Merthyr Tudful** | 5,991,702 | 2.4 | 0.8 |
| **Caerffili** | 13,493,738 | 5.4 | -1.1 |
| **Blaenau Gwent** | 8,439,870 | 3.4 | -2.1 |
| **Torfaen** | 8,052,503 | 3.3 | -1.5 |
| **Sir Fynwy** | 5,861,916 | 2.4 | -1.5 |
| **Casnewydd** | 10,313,078 | 4.2 | -0.2 |

*Ffynhonnell: Datatank*

### *Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor: Hawlwyr yn ôl Statws Pasbort*

Ym mis Hydref 2013, roedd cyfran uwch o dderbynwyr gostyngiad yn y Dreth Gyngor ledled Cymru yn y system basbort (70%) nag oedd ddim. Roedd y 30% o dderbynwyr eraill yn ddi-basbort. Mae **Tabl 5** yn dangos bod y ganran o dderbynwyr yn y system pasbort a'r rhai di-basbort yn amrywio o'r naill Awdurdod Lleol i'r llall. Yng Nghasnewydd, roedd tua 74% o dderbynwyr yn y system basbort, o gymharu â 63% yn Sir Fynwy. Mae'r ffigurau hyn yn debyg i gyfran llwyth achosion pasbort a di-basbort o dan Fudd-dal y Dreth Gyngor. Fodd bynnag, nid yw hyn yn annisgwyl o ystyried bod hawlwyr CTB wedi'u trosglwyddo i'r cynlluniau newydd yn 2013-14.

**Tabl 5: CTRS: Ymgeiswyr fesul Awdurdod Lleol a Statws Pasbort: Hydref 2013**

| | **Yn y system basbort (%)** | **Di-basbort (%)** |
|---|---|---|
| **Cymru** | 70 | 30 |
| **Ynys Môn** | 71 | 29 |
| **Gwynedd** | 68 | 32 |
| **Conwy** | 71 | 29 |
| **Sir Ddinbych** | 71 | 29 |
| **Sir y Flint** | 65 | 35 |
| **Wrecsam** | 66 | 34 |
| **Powys** | 65 | 35 |
| **Ceredigion** | 67 | 33 |

| | | |
|---|---|---|
| **Sir Benfro** | 69 | 31 |
| **Sir Gaerfyrddin** | 68 | 32 |
| **Abertawe** | 70 | 30 |
| **Castell-nedd Port Talbot** | 70 | 30 |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 68 | 32 |
| **Bro Morgannwg** | 67 | 33 |
| **Caerdydd** | 71 | 29 |
| **Rhondda Cynon Taf** | 73 | 27 |
| **Merthyr Tudful** | 69 | 31 |
| **Caerffili** | 73 | 27 |
| **Blaenau Gwent** | 70 | 30 |
| **Torfaen** | 68 | 32 |
| **Sir Fynwy** | 63 | 37 |
| **Casnewydd** | 74 | 26 |

*Ffynhonnell: Datatank*

***Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor: Llwyth achosion a Gwariant yn ôl Band y Dreth Gyngor***

Mae hefyd yn ddefnyddiol ystyried llwyth achosion a gwariant ar CTRS mewn perthynas â Bandiau'r Dreth Gyngor. Mae **Ffigur 4** yn darparu trosolwg o'r llwyth achosion ar gyfer CTRS yn ôl Band y Dreth Gyngor ar lefel Cymru. Mae'n dangos bod dros hanner y llwythi achosion cyffredinol yn ymwneud ag eiddo Band A a Band B. Mae **Atodiad C** yn darparu rhagor o wybodaeth am CTRS a Bandiau'r Dreth Gyngor ar lefel Awdurdodau Lleol ym mis Hydref 2013.

**Ffigur 4: CTRS: Llwyth achosion yng Nghymru yn ôl Band (%): Hydref 2013**




*Ffynhonnell: Datatank*

Mae **Tabl 6** yn dangos gwariant Cymru gyfan ar CTRS yn ôl Band y Dreth Gyngor ym mis Hydref 2013, yn ogystal â'r gwahaniaeth rhwng y gyfran uchaf a'r gyfran isaf o wariant Awdurdodau Lleol yn ôl Bandiau'r Dreth Gyngor.

Nid oes syndod bod y rhan fwyaf o'r gwariant ar CTRS - tua 78% ledled Cymru, ond cymaint â 97% ym Mlaenau Gwent – ar gyfer eiddo mewn Bandiau A i C, gan fod ymgeiswyr cymwys yn tueddu i berthyn i gartrefi incwm isel ac yn preswylio fel arfer mewn eiddo â gwerth (cymharol) is. Fodd bynnag, ceir amrywiadau ledled Cymru. Er enghraifft, mae 25% o wariant CTRS Sir Fynwy ar gartrefi sy'n perthyn i Fand D, ond dim ond 2% yw'r gwariant ym Mlaenau Gwent. Eto, mae dadansoddiad llawn o wariant Awdurdodau Lleol yn ôl Band y Dreth Gyngor ar gael yn **Atodiad C**.

**Tabl 6: CTRS: Gwariant yn ôl Band ac Amrywiad Awdurdodau Lleol – Hydref 2013**

| Band | Cymru (%) | Amrywiad o | Amrywiad i |
|---|---|---|---|
| A | 25 | 2% - Sir Fynwy | 74% - Blaenau Gwent |
| B | 30 | 19% - Blaenau Gwent | 51% - Castell-nedd Port Talbot |
| C | 23 | 4% - Blaenau Gwent | 36% - Sir Ddinbych |

| | | | |
|---|---|---|---|
| D | 11 | 2% - Blaenau Gwent | 25% Sir Fynwy |
| E | 7 | 1% - Blaenau Gwent | 17% - Ceredigion |
| F | 3 | 1% - Blaenau Gwent | 8% - Powys |
| G | 1 | 0% - Blaenau Gwent | 5% - Sir Fynwy |
| H | <1 | 0% - Blaenau Gwent, Caerffili, Merthyr, Torfaen | 2% - Sir Fynwy |
| I | <1 | 0% - Ceredigion, Sir Gaerfyrddin, RhCT, Merthyr, Blaenau Gwent, Torfaen | 1% - Sir Fynwy |

*Ffynhonnell: Datatank*

## 5. Apelio

### *Tribiwnlys Prisio Cymru*

